

DOLEN Y TAB – 26

16–17 Hydref 2020

OEDFA BORE SUL 18 HYDREF

Gwasanaeth i'r teulu yng nghwmni Lyn, Mike ac Iwan West a ffrindiau.

Y SUL NESAF

25 Hydref

Y Parchg. Gethin Rhys.

OEDFAON TACHWEDD

1 Yng nghwmni rhai o aelodau Ton-teg a Phentre'r Eglwys

8 Sul Heddwch

15 Oedfa i'r Teulu gyda Heulyn, Catrin a rhai o'r Twmiaid.

22 Emlyn Davies.

29 Y Parchg. Gethin Rhys.

Cofiwch hefyd y Sul yma am . . .

10.30 Oedfa Ddigidol yr Undeb

Y Parchg. Geraint Morse o fynyddoedd y Preseli. (*annibynwyr.org* a *You Tube*).

12.00 Oedfa Radio Cymru

yng ngofal Delyth Morgans-Phillips (Oedfa Ddiolchgarwch), Bwlch-Ilan

12.30 Radio Cymru *Bwrw Golwg* gyda John Roberts.

E-fwletin Cristnogaeth21 newydd i'w weld bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru.

GAIR O'R BWRDD

Wrth gyfarch aelodau'r Bwrdd yn y cyfarfod nos Fawrth 6 Hydref, mynegodd y Cadeirydd, Eluned Davies-Scott, ei thristwch bod rhaid dychwelyd unwaith yn rhagor i gynnal y cyfarfod yn rhithiol yn sgil yr ymchwydd diweddar mewn achosion o COVID-19 yn yr ardal. Gyda'r dyddiau'n prysur fyrhau a gaeaf hir i'w wynebu, bydd llai o gyfleoedd i rai o'n haelodau gwrdd ag eraill. Ond serch hynny roedd yn hyderus bod yna rwydwaith da o fewn y Tabernacl a fydd yn barod i gadw llygad a gofalu dros y rhai o blith yr aelodau sy'n fwyaf bregus yn gorfforol neu'n feddyliol. Talodd ddiolch hefyd i aelodau'r Bwrdd ac amrywiol bwyllgorau'r eglwys am barhau i weithredu ar waetha'r amgylchiadau presennol.

Unwaith yn rhagor, neilltuwyd prif drafodaeth y cyfarfod i ystyried pryd y gallwn fentro cyd-addoli yn ddiogel unwaith eto yn y Tabernacl. Ond fel y crybwyllodd ein Cadeirydd uchod, mae'r haint ar gynydd unwaith yn rhagor, yn arbennig felly yn yr ardal hon. Ar ben hynny, dangosodd canlyniadau'r arolwg a gynhaliwyd ymhlith yr aelodau, ynghyd â'r tynhau pellach a gafwyd i'r canllawiau y byddai'n rhaid eu dilyn, gall fod yn fisoedd lawer cyn y bydd modd i ni gwrdd wyneb yn wyneb eto. Yn y cyfamser, bydd y Bwrdd yn cwrdd yn rhithiol i adolygu'r sefyllfa'n fisol.

Gan fod y Comisiwn Elusennau yn caniatáu i gwmnïau elusennol gynnal eu cyfarfodydd cyffredinol blynyddol ar-lein eleni, cytunwyd i barhau gyda'r paratodau i'w gynnal yn ôl yr arfer ar fore Sul olaf mis Tachwedd. Gan fod tymor tair blynedd pedwar o'r Cyfarwyddwyr / Ymddiriedolwyr presennol yn dirwyn i ben ddiwedd Tachwedd, erbyn yr amser hyn yr wythnos nesaf byddwn wedi dosbarthu ffurflenni enwebu i sicrhau y bydd o leiaf 4 aelod newydd i gymryd eu lle ar y Bwrdd erbyn mis Rhagfyr.

Rydym yn parhau i chwilio am olynydd i Ioan Rees fel Rheolwr Safle, a bellach rydym wedi ymestyn y rhwyd y tu hwnt i aelodau a chyfeillion y Tabernacl. Os medrwyd awgrymu unrhyw un addas allai fod â diddordeb yn y swydd, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd, Gwilym Huws neu Mike West, cadeirydd y Pwyllgor Meddiannau. Yn y cyfamser, rydym yn ddiolchgar iawn i Mike sy'n cadw gofal rhagorol dros y safle.

Ymhlith y materion eraill oedd ar yr agenda, cytunwyd i archebu cist ffeilio. Hefyd, yn dilyn asesiad risg tân, cytunwyd i archebu diffoddwr tân ychwanegol ar gyfer y galeri a threfnu i hyfforddi aelodau i fod ar ddyletswydd petai tân yn y capel.

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Bore Sul 29 Tachwedd
Cynhelir y cyfarfod ar-lein

Cyhoeddir rhagor o fanylion ynghylch sut i ymuno yn y cyfarfod yn nes at y dyddiad.

ELUSENNAU 2020

Isod, cyhoeddir gwybodaeth am yr elusennau lleol hynny fydd yn derbyn eu cyfran o'r arian a gesglir eleni i'r Gronfa Elusennau ('casgliad yr amlenni brown'). Mae'r arian yn gwneud gwahaniaeth mawr ar lefel leol. Os nad ydych wedi cyfrannu hyd yn hyn, neu'n bwriadu cyfrannu rhagor, yna nid yw'n rhy ddiweddar i wneud hynny yn y modd canlynol:

1. Anfon sic yn daladwy i Capel y Tabernacl Cyf, gan nodi 'Elusennau 2020', at:
Mr Arwyn Lloyd Jones, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU.

NEU

2. Trosglwyddiad banc:
Cod didoli 30-96-72
Rhif cyfrif 03607499
a chynnwys eich enw a nodi 'Elusennau 2020'.

GOFALWYR IFANC RhCT

Mae'r prosiect hwn yn ceisio adfer ychydig o'u plentyndod i blant sydd wedi gorfod tyfu i fyny yn llawer rhy gyflym oherwydd anawsterau teuluol sy'n eu gorfodi i ofalu am riant, brawd neu chwaer gydag anabledd neu waeledd. Darperir cefnogaeth un i un, gweithgareddau grŵp a chysylltiad â gweithgareddau cymunedol. Ar ben hyn, trefnir gweithdai ac egwyl preswyl, er mwyn lleddfu ychydig ar faich ysgwyddau ifanc a dod â rhywfaint o normalrwydd plentyndod i'w bywydau.

YSGOL TŶ COCH, TON-TEG

Mae Ysgol Tŷ Coch yn darparu addysg bwrpasol, berthnasol, bersonol i blant 3–19 oed sydd ag anawsterau dysgu dwys, a hynny mewn awyrgylch ddiogel, ofalgar sy'n eu hysgogi i gyrraedd eu potensial.

CYMORTH I FERCHED CYMRU

Mae'r elusen hon yn gweithio i ddileu trais yn y cartref a phob math o drais yn erbyn menywod, ac yn darparu cymorth emosiynol ac ymarferol i fenywod a phlant sydd wedi neu sydd yn dioddef unrhyw fath o gamdriniaeth, a llety dros dro diogel pan fo angen. Mae'r gwasanaeth yn gyfrinachol, yn anfeirniadol, ac yn rhad ac am ddim.

CWTCH

Mae Cwtch, y prosiect cyntaf o'i fath yng Nghymru, yn cydweithio gydag ymwelwyr ieuchyd a gweithwyr cymdeithasol er mwyn diwallu anghenion mamau anghenus drwy gyflenwi dillad, offer a nwyddau hylendid ar gyfer babanod hyd at ddwy oed. Rydym wedi bod yn casglu nwyddau ar gyfer y prosiect yn y gorffennol.

PRESENNOL A DYFODOL ANSICR I ADDOLDAI?

Peth peryglus iawn, a dweud y lleiaf, yw cynnal sgwrs gyda John Llew yn y fynwent – a doedd bore ddoe ddim yn eithriad! Sôn yr oedd am ymweliad a wnaeth yn ddiweddar ag Aberdâr a synnu unwaith eto cynifer o gapeli'r dref oedd bellach wedi cau. Gwaetha'r modd, nid yw Aberdâr yn eithriad, gan mai'r un yw'r duedd ers hanner canrif a mwy ar draws Cymru. Ond yn sgil y pandemig mae hefyd yn destun amserol wrth wynebu'r her am ddyfodol yr eglwysi hynny sy'n weddill. Fel y gwyddom o brofiad yn y Tabernacl, mae'r cyfyngiadau diweddar wedi ei gwneud yn anodd i gynllunio ein gweithgarwch dros y misoedd nesaf – ac nid ydym yn eithriad yn hyn o beth. Ond beth am y dyfodol y tu hwnt i'r cyfyngiadau presennol? Dyma destun trafod cynhadledd *Ffydd yn y Dyfodol?* a drefnwyd gan Fforwm Addoldai Hanesyddol Cymru, ac a gynhelir ar Zoom fore lau 22 Hydref rhwng 9.15 a 12.15.

Ym marn Christopher Catling, Cadeirydd y Fforwm, byddai'n fendigedig pe bai pob eglwys a chapel cyn hir yn codi baner fawr yn cyhoeddi 'Rydyn ni ar agor; dewch i mewn!'. Mae'n gweld y cyfnod hwn fel cyfle i ddangos gwerth yr adeiladau. Fel y gwelsom dros y misoedd diwethaf, mae llawer mwy i eglwys, wrth gwrs, nag adeiladau ffisegol yn unig – ond hyd yn oed wedyn, mae peidio â chael mynd i Gapel y Tabernacl yn golled fawr i lawer ohonom.

Dyma rai o'r themâu a drafodir fore lau:

- **Mannau Digidol i Addoli** – *sut mae addoldai wedi cofleidio'r technolegau newydd?*
- **Mannau Cymunedol i Addoli** – *o fanciau bwyd 'pop-up' i lochesau dros nos newydd, sut y dylem addasu i anghenion ein cymunedau pan fydd y pandemig wedi cilio?*
- **Mannau Ffisegol i Addoli** – *tra bod mwy o alw nag erioed am ofodau cymunedol, beth fydd yr oblygiad ymarferol i addolai wrth ail-agor?*

Gallwch gofrestru'n rhad ac am ddim i fynychu'r gynhadledd ar:

https://us02web.zoom.us/webinar/register/WN_dS7WnEyZTRSBMAd5U0H-Wg

Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** a sefydlwyd yn ystod y cyfnod clo i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rhannu erbyn nos lau yn wythnosol at: gehpengwern@yahoo.co.uk / 07710 237327 / 01443 225205